**Ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Daw'r adolygiad hwn ar adeg dyngedfennol i ddarlledwyr a dinasyddion, o ystyried y tirlun darlledu sy'n newid yn gyflym ac esblygiad parhaus datblygiadau digidol arloesol sydd wedi creu newid sylfaenol yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys ac yn cysylltu â darlledwyr. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cyflymu gan bandemig COVID-19, ac maent wedi amlygu'r angen am weithredu brys wrth i’r newidiadau gyflymu, er mwyn sicrhau y gall ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i wasanaethu anghenion Cymru.

Nid oes amheuaeth ynghylch perthnasedd a phwysigrwydd parhaus darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rôl hollbwysig y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae wrth lywio, diddanu, addysgu a chreu dinasyddiaeth ddiwylliannol gyffredin wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod pandemig COVID-19. Mae darlledwyr hefyd yn gyfranwyr hanfodol at dwf ein diwydiannau creadigol ac economi Cymru, gan ddatblygu cynnwys yng Nghymru gan ein cwmnïau cynhyrchu annibynnol, a chefnogi amrywiaeth a chynaliadwyedd yn y sector yn y dyfodol drwy ddatblygu sgiliau a thalent. Hefyd, mae darlledu effeithiol yn hanfodol i ddatganoli a chynnal a datblygu'r Gymraeg.

Mae angen fframwaith newydd i gyd-fynd â strwythurau darlledu newydd a sicrhau bod darlledwyr yn gallu parhau i gyflawni dros bobl Cymru. Cytunwn ag Ofcom fod yn rhaid i'r fframwaith hwn gefnogi newid effeithiol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid i'r fframwaith hwn fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion y gwahanol fathau o ddarlledwyr sy'n gweithredu ledled y DU, ac i addasu i newidiadau parhaus a threfniadau diogelu at y dyfodol yn unol â datblygiadau arloesol sy'n esblygu ac amgylchedd sy'n gynyddol fyd-eang. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw newidiadau sicrhau bod rhwymedigaethau gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn addas i'r diben mewn cyd-destun datganoledig ac nad yw hyblygrwydd yn digwydd drwy greu effaith negyddol ar wasanaethau yng Nghymru i Gymru.

Rydym wedi cyfarfod â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i ofyn am eu barn ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad hwn, ac mae eu hadborth wedi'i adlewyrchu yn ein hymateb, fel y bo'n briodol. Barn gyffredin ar draws yr holl ddarlledwyr yw'r angen i weithredu'n gyflym. Mae amlygrwydd wedi bod yn nodwedd allweddol yn y trafodaethau hyn, mater y mae Ofcom eisoes wedi gwneud argymhellion arno, gyda'r camau sydd eto i'w cymryd. Byddem yn annog Llywodraeth y DU i gymryd camau cynnar mewn ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed gan Ofcom yn seiliedig ar eu hymchwil a chanfyddiadau'r ymgynghoriad hwn.

Wrth i'r adolygiad hwn barhau a bod argymhellion yn cael eu datblygu, mae angen strwythurau sy'n rhoi llais digonol i Gymru mewn datblygiadau, fel y gallwn fod yn rhagweithiol yn y drafodaeth hon a sicrhau bod unrhyw newidiadau a gynigir i'r trefniadau rheoleiddio presennol yn diogelu ac yn gwasanaethu buddiannau pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth ehangach o ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy banel y diwydiant a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU, y mae ei

aelodaeth wedi wynebu rhywfaint o feirniadaeth, a'r adolygiad o ffi'r drwydded deledu.

Ni fyddwn yn ateb cwestiynau'r ymgynghoriad yn unigol, ond yn hytrach byddwn yn canolbwyntio ar nifer fach o themâu allweddol sydd o bwys arbennig i Gymru.

**Y sefyllfa benodol yng Nghymru**

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad blaenorol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a gynhaliwyd gan Ofcom yn nodi'r sefyllfa benodol yng Nghymru, ac mae'n dal yn berthnasol. Mae Cymru'n genedl ohoni ei hun, gyda diwylliant a iaith unigryw. Mae ei hethos dwyieithog a'i natur a'i hanes yn wahanol o fewn y DU; mae angen eu diogelu a'u dathlu.

Er bod dogfen ymgynghori'r Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yn nodi bod y boddhad â darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd yng Nghymru yn parhau'n gymharol uchel (ar 75%) ac mae'n fwy na boddhad cynulleidfaoedd yn yr Alban (68%) a Lloegr (73%), mae lle i wella. Mae adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC yn nodi, yn 2020, fod llai na hanner y bobl (45%) yng Nghymru o'r farn bod y BBC wedi darparu ystod da o gynnwys sy'n cynrychioli Cymru, ac mae nifer y bobl sy'n rhoi sgôr isel i'r BBC (sgorau 1-4 allan o 10) wedi cynyddu o 12% yn 2018 i 19% yn 2019.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhan hanfodol o'r sector Diwydiannau Creadigol ffyniannus yng Nghymru, sector hynod bwysig i economi Cymru – gyda throsiant blynyddol o fwy na £2.2 biliwn yn 2019 a lefel cyflogaeth o dros 56,000 o bobl, dros 40% yn fwy na 10 mlynedd yn ôl. Mae gan ddarlledwyr y gwasanaeth cyhoeddus rôl hollbwysig ym mywyd dinesig Cymru hefyd, ac maent yn cyfrannu'n fawr at dirwedd diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol Cymru.

Fodd bynnag, er bod enghreifftiau o welliannau mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ran buddsoddi a darparu yng Nghymru, mae gwasanaethau sy'n benodol ar gyfer gwrandawyr a gwylwyr Cymru yn parhau i fod o dan bwysau. Amlygir hyn yn y canfyddiadau ymchwil diweddar a wnaed gan Ofcom fel y nodir isod (nodwn y gall fod problemau gyda sail rhai o'r ffigurau hyn, mae angen eu hystyried hefyd yng nghyd-destun gweithgarwch ehangach):

*Adroddiad Cyfryngau Cenedlaethol Cymru*

- Bu gostyngiad yng ngwariant cyfunol y BBC ac ITV Cymru ar raglennu i Gymru 2% yn 2019 i £33.5m.
- Yn 2019, cynhyrchodd y BBC 629 awr o raglennu lleol, cynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, tra bod ITV wedi cynhyrchu 332 awr o raglennu lleol, ychydig yn llai nag yn 2018.
- Bu gostyngiad gwariant ITV Cymru Wales ar gynnwys cyntaf Cymru 5% i £6.1m rhwng 2018 a 2019.

*Adolygiad pum mlynedd Ofcom o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus*

- Bu gostyngiad yng ngwariant cyntaf S4C yng Nghymru 7% o £65.8m yn 2014 i £61m yn 2018.

*Adroddiad Corfforaeth Deledu Channel Four a Datganiadau Ariannol 2019*

- Mae nifer y comisiynau yng Nghymru wedi aros yn gyson rhwng 2018 a 2019 ar 100 awr, ond bu gostyngiad yn y gwariant o £13.8 miliwn yn 2018 i £9.4 miliwn yn 2019, gostyngiad canrannol o 32%. Bu gostyngiad hefyd yn y buddsoddiad mewn cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru 30%, o £9.7 miliwn yn 2018 i £4.2 miliwn yn 2019.

Prin yw'r sylw a roddir i fywyd cyhoeddus a chymdeithas Cymru mewn papurau newydd yn y DU ac ar wasanaethau darlledu yn y DU, sy'n cynnwys y prif gyfryngau yng Nghymru. Nid yw'r portread o Gymru yn y cyfryngau yn y DU yn adlewyrchu amrywiaeth a chyfoeth diwylliannol y genedl. Nid yw rheoleiddio, er enghraifft fel sy'n gysylltiedig â hawliau chwaraeon, bob amser yn adlewyrchu nac yn diogelu'r meysydd hynny sydd bwysicaf i bersbectif diwylliannol Cymru. Rhaid i'r fframwaith rheoleiddio sy'n deillio o unrhyw argymhellion a nodir yn yr adolygiad diweddaraf hwn sicrhau bod darlledwyr y DU yn diwallu anghenion Cymru ac yn dangos gwelliannau parhaus yn y portread o Gymru ar draws gwasanaethau a chynhyrchiadau.

*Newyddion a newyddiaduraeth*

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu newyddion. O ystyried seilwaith cynhenid cymharol wan Cymru ar gyfer newyddion drwy gyfryngau print, ynghyd â diffyg sylw sylweddol yng nghyfryngau'r DU, mae gorddibyniaeth ar wasanaethau newyddion teledu yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Amlygir hyn yn Adroddiad Defnyddio Newyddion Ofcom yn y DU 2020, sy'n nodi mai teledu yw'r llwyfan a ddefnyddir fwyaf ar gyfer cael gafael ar newyddion yng Nghymru (75%) ac adroddiad Media Nation 2020 Cymru, sy'n dangos mai sianeli teledu BBC One ac ITV Cymru yw'r ffynonellau newyddion mwyaf poblogaidd i bobl Cymru. Mae hyn wedi bod yn broblem benodol yn ystod y pandemig presennol, lle bu enghreifftiau o gamadrodd ar amgylchiadau Cymru gan ddarlledwyr y DU.

Rhaid i unrhyw fframwaith yn y dyfodol gydnabod pwysigrwydd newyddion rhanbarthol a dangos gwelliannau parhaus yn y sylw a roddir i faterion gwleidyddol datganoledig yng Nghymru a rhoi sylw digonol i faterion a digwyddiadau Cymreig.

**Newid modelau darparu**

Mae newid sylfaenol yn digwydd yn y farchnad ddarlledu fyd-eang. Mae opsiynau newydd ar gyfer cyflwyno a newid arferion defnyddio cynnwys yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyrraedd ac yn cysylltu â chynulleidfaoedd. Cytunwn ag Ofcom bod angen fframwaith rheoleiddio newydd ar frys sy'n adlewyrchu newid tuag at gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithredu ar-lein ac ar draws sianelau mwy traddodiadol. Rydym yn cytuno, o ganlyniad i'r newidiadau hyn, fod manteision i fabwysiadu dull mwy 'niwtral o ran gwasanaeth' o reoleiddio. Fodd bynnag, rhaid i hyn ystyried anghenion gwahanol grwpiau o fewn cymdeithas a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfa amrywiol nad oes ganddynt y gallu neu sy’n dewis gwylio cynnwys o ddarlledu traddodiadol ac ar-lein.

Rhaid i unrhyw newidiadau i fframwaith darlledu'r gwasanaeth cyhoeddus sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch. Rhaid iddo sicrhau bod Codau a rheoliadau sy'n ymwneud â hygyrchedd gwasanaethau i bobl anabl yn berthnasol i'r gwahanol ffyrdd y mae'r grŵp hwn yn cael gafael ar gynnwys mewn byd mwy ar-lein. Rhaid iddo hefyd adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg yng Nghymru, a sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu ar sianeli mwy digidol ac ar-lein, er enghraifft drwy sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn parhau i fod yn weladwy ac yn chwiliadwy.

Dylai unrhyw newidiadau gefnogi parhad gwasanaeth ar y model darlledu teledu, sy'n dal i gael ei werthfawrogi gan lawer o aelodau mewn cymdeithas ac sy'n arbennig o bwysig i grwpiau agored i niwed a'r rhai heb fynediad neu fynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn wasanaeth sydd ar gael i bawb, gan gwmpasu'r ystod eang o wasanaethau a ddisgwylir gan ddinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am fodel sy'n galluogi darlledwyr i nodi ffrydiau incwm newydd i gefnogi cynaliadwyedd y system yn y dyfodol wrth i hysbysebion teledu darlledu ostwng. Fodd bynnag, byddem yn rhybuddio yn erbyn symud at fodel 'craidd' ac 'ychwanegol' o wasanaethau, a fyddai'n cael effaith anghymesur ar y rhai nad ydynt yn gallu talu am wasanaethau ehangach na chael gafael arnynt.

Cytunwn y dylid ehangu a diogelu amlygrwydd a darganfyddiad cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn bod yn berthnasol i farchnad gynyddol fyd-eang, a goruchafiaeth gynyddol llwyfannau ar-lein. Er y bydd amlygrwydd ar y Canllaw Rhaglennu Electronig (EPG) yn parhau i fod yn bwysig, wrth i lai o bobl gael gafael ar gynnwys drwy'r EPG, mae angen cymryd camau i godi'r trothwy amlygrwydd er mwyn sicrhau amlygrwydd ar lwyfannau'r dyfodol. Wrth i ddarlledwyr symud cynnwys o raglennu traddodiadol ar sianelau sefydledig, mae angen ateb i gynnal amlygrwydd er mwyn sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn bosibl ei ganfod a'i hyrwyddo i gynulleidfaoedd allweddol, boed ledled y DU neu mewn gwledydd a rhanbarthau penodol. Rhaid i gynulleidfaoedd hefyd allu llywio i gynnwys, a darganfod cynnwys darlledwr gwasanaeth cyhoeddus waeth beth fo'u llwyfan o ddewis. Mae angen gweithredu ar frys gan y llywodraeth i gefnogi hyn, fel y gellir dod o hyd i gynnwys drwy ganllawiau rhaglennu digidol.

Rhaid i unrhyw fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol hefyd gydnabod effaith llwyfannau byd-eang. Fel y nodwyd yn adroddiad Ofcom ar y Cyfryngau, 'mae gan mwy na hanner yr aelwydydd (54%) danysgrifiad i un neu fwy o'r gwasanaethau ar-lein y telir amdanynt ar ddechrau 2020'.

Mae angen newidiadau i sicrhau y gellir cynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau digidol ar delerau teg, i gefnogi rhannu data, gwerth teg am gynnwys ac i liniaru effaith arferion hysbysebu digidol.

**Darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu annibynnol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid ystyried effeithiolrwydd y berthynas rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu annibynnol. Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar hyn fel rhan o'n hymateb i 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr'.

Nid oes amheuaeth nad yw'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, S4C a BBC Cymru yn arbennig wedi helpu i dyfu'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Erbyn hyn mae gan Gymru nifer o gwmnïau annibynnol hynod lwyddiannus sy'n creu cynnwys wedi'i sgriptio a heb ei sgriptio ar gyfer llawer o sianeli a rhwydweithiau. Byddai llawer o'r cwmnïau hyn wedi darparu cynnwys ar gyfer S4C yn bennaf yn wreiddiol, gydag S4C yn ganolog i'w datblygiad cychwynnol.

Yn ogystal, drwy gydol pandemig COVID-19, mae Cymru Greadigol wedi gweithio'n agos gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi'r sector, gyda'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn gadarnhaol i ddull cydweithredol o gefnogi'r diwydiant. Mae hyn wedi cynnwys gweithio'n agosach ar gyllid datblygu a chydweithio ar brosiectau sgiliau gyda phwyslais arbennig ar amrywiaeth a chynhwysiant. Ystyrir hyn yn gam mawr ymlaen o ran sut y gallwn gydweithio i gefnogi'r sector cynhyrchu yng Nghymru yn well.

Fodd bynnag, mae'n destun pryder gweld enghreifftiau o ostyngiadau mewn gwariant yng Nghymru gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2019. O fewn marchnad sy'n gynyddol gystadleuol, mae'n anodd i gwmnïau annibynnol o Gymru gael y comisiwn a fydd yn sbarduno eu twf yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau'n chwilio am y gyfres amser brig honno allai ddychwelyd a fyddai yn codi eu statws ac yn rhoi incwm cynaliadwy iddynt.

Maent yn elfen bwysig o'r fframwaith darlledu, a byddem yn wyliadwrus o unrhyw newidiadau cwota a allai ganiatáu cynhyrchu cynnwys mewnol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus - a chomisiynu cynnwys annibynnol - i symud i ffwrdd o'r gwledydd a rhanbarthau ac yn ôl tuag at Lundain a'r De-ddwyrain. Fodd bynnag, gall ffocws cul ar fesurau meintiol guddio cyfleoedd ehangach i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i Gymru drwy ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Efallai y bydd gwerth mewn canolbwyntio ar fetrigau sy'n dal dimensiynau mwy ansoddol, megis ansawdd cynnwys, portreadu a pherthnasedd. Byddai angen i unrhyw newidiadau arfaethedig i fesur i fabwysiadu dull mwy hyblyg ddiogelu'r symudiad cyson tuag at fwy o ddarpariaeth gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol o fewn y gwledydd.

**Atebolrwydd a chyllid**

Bydd fframwaith newydd ar gyfer system ddarlledu'r gwasanaeth cyhoeddus yn gofyn am strwythur atebolrwydd clir a thryloyw, a chytunwn y dylai fod yn ofynnol i ddarlledwyr nodi eu cynlluniau, gan gynnwys targedau clir. Dylid adrodd yn erbyn perfformiad yn erbyn y rhain yn rheolaidd, a'i fonitro gan Ofcom. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys manylion am sut y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu gwasanaethau yn y gwledydd, ac yn cynnwys targedau yn unol â'r lefelau gofynnol ar gyfer cyflawni yn y gwledydd neu'n uwch na hynny, a bennir gan y rheoleiddiwr.

Cytunwn, er mwyn i system ddarlledu'r gwasanaeth cyhoeddus fod yn effeithiol, fod angen iddi fod yn gadarn yn ariannol. Mae angen i unrhyw fframwaith newydd gefnogi digon o gyllid a sicrwydd o ffrydiau incwm ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid i'r fframwaith ganiatáu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn arloesol o ran dull gweithredu, cefnogi arbedion effeithlonrwydd a chaniatáu iddynt ddiogelu incwm y farchnad, ond rhaid iddynt wneud hynny mewn ffordd sy'n

diogelu eu hannibyniaeth oddi wrth y llywodraeth. Rhaid i ddulliau o gynhyrchu ffynonellau incwm newydd ystyried pwysigrwydd cyffredinolrwydd gwasanaeth fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, a'r gost sy'n gysylltiedig â darparu rhaglennu yn y Gymraeg a'r Saesneg i ddiwallu anghenion yng Nghymru.

Nodwn nad yw ariannu'r BBC yn fater i'r arolwg hwn, fodd bynnag, bydd angen ystyried unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â model ariannu cynaliadwy ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng nghyd-destun dadleuon ehangach ar ddyfodol ffi'r drwydded deledu, o ystyried ei effaith ar y BBC ac S4C. Bydd unrhyw ostyngiad yn lefel y cyllid sydd ar gael drwy ffi'r drwydded i BBC Cymru Wales ac S4C yn niweidiol iawn ac yn ansefydlog i wasanaethau yng Nghymru.

**Casgliad**

Nid oes dadl ynghylch pwysigrwydd parhaus darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, na'r angen am fframwaith mwy modern, sy'n adlewyrchu realiti newydd y system yn symud o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i fodel cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Wrth i newidiadau gael eu gwneud i'r ffordd y caiff cynnwys ei ddylunio, ei gynhyrchu a'i gyflwyno, rydym yn awyddus i sicrhau ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn dod â chyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a thwf yng Nghymru.

Mae sector cyfryngau bywiog yn elfen hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd fodern. Fel cenedl sydd â'i hiaith, ei diwylliant a'i sefydliadau gwleidyddol ei hun, mae cyfryngau cryf yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn ysbrydoli pobl Cymru. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sefyll dros gynnal gwasanaethau llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel genedlaethol a lleol fel rhan o unrhyw fframwaith rheoleiddio newydd a gyflwynir yn y DU.

Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod y sylwadau yn yr ymateb hwn gydag Ofcom a Llywodraeth y DU.